

**Ymateb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i
ymgyngoriad Llywodraeth Cymru
ar Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 – Rhan III,
Ymddygiad Aelodau Llywodraeth Leol**

1. Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mae gennyf ddwy rôl. Y gyntaf yw ymchwilio i gwynion a wneir gan y cyhoedd sy'n credu eu bod wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder trwy gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth ar ran corff yn fy awdurdodaeth. Yr ail yw ystyried cwynion sy'n honni bod aelodau awdurdodau lleol wedi torri eu Cod Ymddygiad. Rwyf yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar sail fy mhrofiad yn yr ail rôl.
2. Rwyf ar sawl achlysur wedi mynegi fy mhryderon ynghylch agweddau penodol ar fframwaith moesegol cyfredol llywodraeth leol. Ar y cyfan, rwyf yn croesawu'r gwelliannau sy'n cael eu cynnig yn y ddogfen ymgynghori. Fodd bynnag, mae gennyf rai sylwadau penodol yr hoffwn eu gwneud mewn cysylltiad â'r cwestiynau unigol a geir yn y ddogfen ymgynghori, sydd fel a ganlyn:

Cwestiwn 1. A oes angen unrhyw welliannau pellach i'r Cod Enghreifftiol i gael effaith ymarferol ar ddarpariaethau Deddf 2013?

Hoffwn nodi, a chroesawu, yr eglurhad arfaethedig bod pob budd personol, ac nid buddiannau ariannol ac eraill, yn dod o fewn y categori a nodwyd ym mharagraff 10(2)(a) ac y dylid ei gofnodi yng nghofrestr buddiannau'r aelodau.

Fodd bynnag, o safbwynt fy swyddfa ac, yn wir, arferion llywodraethu da, byddwn yn awgrymu y dylai'r eithriad ar gyfer aelodau cynghorau cymuned gael ei ddiddymu. Mae cofnodi buddiannau'n eglur mewn cofrestru yn gwneud gwrthdrawiadau, gwirioneddol a phosibl, yn dryloyw cyn unrhyw gyfarfodydd (a byddai hefyd yn helpu clerc y cyngor i sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn briodol).

Cwestiwn 2. A ydych chi'n cytuno er bod yr ymrwymiad ar aelodau i adrodd i'r Ombwdsmon ar achosion posibl o dorri'r Cod yn cael ei ddiddymu, y dylai'r ymrwymiad i adrodd ar achosion o'r fath i'r swyddog monitro perthnasol gael ei gadw?

Ydw. Yn fy marn i, y bwriad wrth ddiddymu'r ymrwymiad i adrodd ar achosion posibl o dorri'r Cod i mi fel Ombwdsmon, oedd hwyluso'r dull datrysiadau lleol (dull yr wyf yn ei gefnogi'n frwd).

Mae'n bwysig bod yr ymrwymiad ar aelodau i adrodd ar achosion posibl o dorri'r Cod yn parhau; mae gwneud hynny'n uniongyrchol i'r swyddog monitro'n cael gwared ar yr hyn sydd ar hyn o bryd yn broses feichus lle mae achosion yn cael eu hadrodd i mi fel Ombwdsmon ac rwyf innau wedyn yn cyfeirio cwynion lefel isel at swyddogion monitro i gael eu hystyried ar lefel leol. Ni allaf weld unrhyw anhawster os byddai swyddogion monitro yn cyfeirio cwyn aelod ataf fi os (a) yw'n cael ei hystyried yn rhy ddifrifol i gael ei hystyried ar lefel leol; neu (b) am ba bynnag reswm, nid oedd modd datrys y gŵyn ar lefel leol.

Cwestiwn 3. A ydych chi'n cytuno bod hepgor paragraff 10(2)(b) yn rhoi sylw priodol i'r anawsterau a brofir wrth weithredu'r agwedd hon ar y Cod yn ymarferol?

Ydw. Yn fy marn i, mae dileu paragraff 10(2)(b) yn fuddiol, yn enwedig gan ei fod yn datrys y gwrthdrawiad posibl ag adran 25 o Ddeddf Lleoliaeth 2011.

Cwestiwn 4. A oes unrhyw welliannau eraill sydd eu hangen i hwyluso sefydlu a gweithredu cydbwyllgor safonau?

Ni allaf feddwl am unrhyw welliannau pellach sydd eu hangen. Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddweud fy mod yn croesawu'r cynnig sy'n galluogi sefydlu cydbwyllgorau safonau. Bydd trefniant o'r fath, mi dybiaf, yn goresgyn unrhyw broblemau a brofir weithiau gan awdurdodau lleol wrth geisio ffurfio pwyllgorau sy'n ddigon 'annibynnol'. Bydd hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ddelio ag achosion ac, yn benodol, gallai helpu i oresgyn problemau gwrthdrawiad buddiannau a all godi'n aml. Yn gyffredinol, credaf y bydd y trefniant hwn yn rhoi hwb i hyder y cyhoedd mewn safonau ymddygiad uchel mewn democratiaeth leol.

Cwestiwn 5. A ydych chi'n cytuno nad oes angen cynyddu uchafswm yr aelodau a ganiateir ar gydbwyllgor?

Ydw. Yn fy marn i byddai cynyddu nifer yr aelodau ar gydbwyllgor i fwy na 9 aelod yn cael effaith negyddol ar allu'r pwyllgor i weithredu ac ymddwyn yn effeithiol ac yn effeithlon, a gallai eu gwneud yn anhylaw.

Cwestiwn 6. A oes unrhyw ganlyniadau nad oedd wedi'u rhagweld yn deillio o'r newid arfaethedig i hyd cyfnod mewn swydd aelodau awdurdod lleol ar bwyllgor safonau (os oes, rhowch eich sylwadau isod)?

Nid wyf yn rhagweld y bydd dim anawsterau'n codi yn sgil y newid arfaethedig.

Cwestiwn 7. A yw'r newidiadau arfaethedig yn rhoi sylw priodol a digonol i'r problemau sydd wedi codi yn sgil cyhoeddi adroddiadau camymddwyn cyn gwrandawiadau pwyllgorau safonau?

Ydy. Er mwyn tegwch, rwyf yn credu y dylai'r papurau gael eu cadw'n breifat nes bydd y penderfyniad terfynol wedi'i wneud. Fodd bynnag, rwyf yn credu y dylid ei gwneud yn glir y bydd y papurau'n gyhoeddus yn dilyn y penderfyniad.

Hefyd, rwyf wedi bod yn bryderus bod gwrandawiadau pwyllgorau safonau wedi cael eu cynnal yn breifat yn y gorffennol lle nad oes rheswm digonol dros wneud hynny. Byddwn yn croesawu darpariaeth sy'n ei gwneud yn glir os ydym am godi hyder mewn safonau mewn bywyd cyhoeddus y dylid tybio y bydd gwrandawiadau pwyllgorau safonau'n cael eu clywed yn gyhoeddus; ac y dylid dangos bod rheswm da dros gynnal gwrandawriad neu ran o wrandawriad yn breifat. Mae hyn yn gydnaws â sut mae cyfiawnder yn cael ei weinyddu.

Cwestiwn 8. A yw'r cynigion hyn yn gwneud darpariaeth ddigonol a phriodol i gyfeirio adroddiadau camymddwyn at bwyllgor safonau awdurdod arall?

Ydynt. Bydd y cynigion hyn yn delio â'r amgylchiadau a all godi weithiau pan fydd pwyllgor safonau'n credu bod mater yn achos gwrthdrawriad buddiannau.

Cwestiwn 9. A ydych chi'n cytuno na ddylai cyfnod gwaharddiad a bennwyd gan bwyllgor safonau gael ei ymestyn y tu hwnt i dymor aelod yn y swydd?

Ydw ac, yn benodol, bydd y cynnig hwn yn gwneud pwyllgorau safonau'n gydnaws â phwerau Panel Dyfarnu Cymru a chyfraith achosion.

Cwestiwn 10. A ydych chi'n cytuno bod y weithdrefn arfaethedig ar gyfer cais am ganiatâd i apelio yn erbyn penderfyniad pwyllgor safonau'n briodol?

Ydw. Fy mhrofiad i o'r trefniadau fel y maent ar hyn o bryd yw bod y cofrau cyhoeddus wedi dioddef yn ddiangen ar adegau o ganlyniad i gostau sy'n deillio o wrandawiadau mewn amgylchiadau lle nad oedd siawns y byddai'r aelod yn ennill yr apêl.

Cwestiwn 11. A ydych chi'n cytuno bod y weithdrefn arfaethedig i gyfeirio cais am oddefeb at bwyllgor safonau awdurdod arall yn briodol?

Ydw, mae hyn yn ymddangos yn briodol gan y byddai'n datrys unrhyw broblemau ymarferol a all godi pan fydd angen ystyried ceisiadau ar frys a byddai'n datrys unrhyw anawsterau a all godi o ganlyniad i wrthdrawiad buddiannau.

Cwestiwn 12. A ydych chi'n cytuno ei bod yn briodol i gynnwys categori goddefeb cyffredinol yn y Rheoliadau?

Mae'n bwysig na fyddai goddefeb o'r fath yn cael effaith ar hyder y cyhoedd yn y broses benderfynu ddemocrataidd; rwyf yn credu y dylai hyn fod ar gael mewn amgylchiadau eithriadol yn unig lle nad oes dim ffordd arall o gael cytundeb ynglŷn â'r aelod dan sylw.

Byddwn yn awgrymu os oes darpariaeth yn cael ei chynnwys yna dylid cael cyfyngiad amser ar gyfer goddefebau o'r fath gyda gofyniad i'r rhain gael eu hadolygu'n rheolaidd gan y pwyllgor safonau perthnasol.

Cwestiwn 13. A ydych chi'n cytuno bod y gwelliannau hyn yn briodol?

O ran y 'Gwelliannau Eraill' nid wyf yn rhagweld unrhyw broblemau â'r newidiadau a gynigir.

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Ionawr 2016**
